





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Parc Dinefwr

Pecyn Adnoddau'r Ystâd



DYSGU



Tudalen 1

Clawr

Tudalen 2

Map a mynegai

Tudalen 3

Cyflwyniad

Tudalen 4

Amcanion Cwricwlwm

Tudalen 5

Defnyddio'n synhwyrau

Tudalen 6

Ymosod ar y Castell

Tudalen 7

Siapiau

Tudalen 8

Adrodd Stori

Tudalen 9

Creu cymeriad

Tudalen 10

Fy Arfbais i

Tudalen 11

Gweithgareddau cyn ac wedi'ch ymweliad



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i baratoi ar gyfer tywys ymweliad eu hunain mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r awgrymiadau am weithgareddau yn hyblyg ac mae modd eu cynnal mewn sawl ffordd. Ry'n ni'n annog athrawon i ddethol ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â deilliannau cwricwlwm ac anghenion y flwyddyn sy'n ymweld.

Iechyd a Diogelwch

Er bod taflenni asesiad risg ar gael, dim ond i chi ofyn, mae athrawon ac arweinwyr grŵp, yn ôl canllawiau'r awdurdod lleol, yn gyfrifol am gyflawni eu un eu hunain, yn enwedig os oes gan blant unigol anghenion penodol.

Archebu ymweliad

I holi am ymweliad neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â dinefwrlearning@nationaltrust.org.uk

neu ffoniwch 01558 825927

Gofynnwn i chi archebu o leia bythefnos ymlaen llaw am ymweliad gyda tywysydd.

Cestyll a'r Cwricwlwm

I ddisgyblion, mae cestyll Cymru yn cynnig awyrgylch ddramatig ac amgylchedd cyffrous i ddatblygu rhychwant o sgiliau iaith a llythrennedd. Mae'r awgrymiadau yn y pecyn hwn yn annog disgyblion i amsugno holl awyrgylch y castell er mwyn cynhyrchu syniadau, barn a phrofiadau byw. Mae'r gweithgareddau hefyd yn archwilio, cynllunio, datblygu ac adfyfyrio ar syniadau i'w defnyddio mewn prosiectau iaith lafar ac ysgrifenedig.





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Amcanion Cwricwlwm

Y NOD

Cyflwyno, archwilio, datblygu a thrafod pob elfen o strwythur y castell a bywyd y castell

AMCANION

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd

Digwyddiadau a phobl trwy amser

- Trefn arferol, newidiadau a dilyniant digwyddiadau
- Adnabod newidiadau a achosir gan amser
- Adnabod gwahaniaethau mewn ffyrdd o fyw
- Defnyddio rhychwant o adnoddau, gan gynnwys arteffactau, adeiladau ac ysgogiad gwel-edol
- Edrych ar wahanol ddarluniadau a dehongliadau o'r gorffennol

Myfi fy hunan

- Dysgu am y synhwyrddau sydd gan bobl, a'u defnydd ohonyn nhw i fod yn ymwybodol o'r byd o'u cwrpas
- Dysgu am gyflymder y pŷls a sut mae'n newid wrth ymarfer y corff

FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Llafaredd, Darllen, Ysgrifennu

- Profi amgylchedd dysgu yn yr awyr agored.
- Gofyn ac ateb cwestiynau.
- Trafod gwybodaeth.
- Darganfod trwy rychwant o weithgareddau parod.
- Ysgrifennu'n annibynnol mewn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau, straeon a cherddi.

Datblygiad Mathemategol

- Rhif, Trafod Data
- Casglu, cynrychioli a dadansoddi data.
- Adnabod siapiau

DEILLIANNAU

Bydd plant yn gallu:

- Adnabod digwyddiadau wrth iddyn nhw ddi-gwydd, a gwahaniaethu rhwng y presennol a'r gorffennol.
- Defnyddio iaith addas.
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng presennol a gorffennol
- Adnabod ffyrdd gwahanol o ddehongli'r gorffennol.
- Gofyn ac ateb cwestiynau am y gorffennol.





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Defnyddio'n Synhwyrau

Gan ddefnyddio pedwar yn unig o'ch synhwyrau, llanwch y tabl i gofnodi eich taith drwy Goed y Castell a'ch amser yng Nghastell Dinefwr.

Synnwyr	Coed y Castell	Y Castell Mewnol
Beth allwch chi ei weld ?		
Beth allwch chi ei glywed ?		
Beth allwch chi ei arogli ?		
Beth allwch chi ei deimlo ?		

Enghreifftiau o eirfa:

Carreg Gwyrdd Porfa Awyr

 Llaith Coed

Awellog Oer Tawel Twym



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Ymosod ar y Castell

Ry'ch chi'n byw yn y castell ac heb ddim rhybudd, ry'ch chi'n clywed bod yna ymosodiad wedi dechrau ar y castell. Yn eich panig, ry'ch chi'n dechrau rhedeg yn wyllt o gwmpas y waliau mewnol.

Gwnewch y gweithgaredd hwn i bob aelod o'ch grŵp, ac ysgrifennwch ganlyniadau tasgau 2,3, a 4 yn y tabl isod.

1. Dewch o hyd i'ch pwynt pŷls
2. Mesurwch eich pŷls cychwynnol
3. Ar ôl tri, rhedwch unwaith o gwmpas y castell, tra bod un aelod o'ch grŵp yn eich amseru.
4. Ar ol cyrraedd nôl i'r dechrau, mesurwch eich pŷls eto.



Enwau	Pŷls cyn yr ymosodiad	Amser rhedeg	Pŷls ar ôl yr ymosodiad



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Siapiau



Gallwch ddod o hyd i'r siapiau yma i gyd o gwmpas a
thu mewn i'r castell:

Cylch

**Petryal (neu hirsgwar)
Sgwâr**

Bwa

Hecsagon





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Creu Cymeriad

Rhannwch y plant yn grwpiau o bump, rhowch gymeriad i bob plentyn ac anogwch chwarae rôl.



Mae'r Arglwydd a'r Fonesig yn dibynnu ar bawb i wneud popeth drostyn nhw. Mae nhw'n garedig ac yn hael ond yn hollol anobeithiol ar wneud tasgau cyffredin bob dydd



Mae'r Arglwydd a'r Fonesig yn dibynnu ar bawb i wneud popeth drostyn nhw. Mae nhw'n garedig ac yn hael ond yn hollol anobeithiol ar wneud tasgau cyffredin bob dydd



Marchog – Mae e wastad yn brolio pa mor ddewr a chlyfar yw e, ond mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn chwilio am esgus dros beidio ymladd.



Morwyn – Mae'n gweithio'n galed ac am oriau hir. Mae hi wastad yna i helpu ac weithiau gall fod braidd yn 'bossy'.



Gwas—Mae e'n ddiog ac yn cael stŵr o hyd. Os nad oes neb yn edrych mae'n e'n hoffi dianc yn dawel fach i fynd am gysgad.



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Cynllunio Arfbais


Dyma arfbais Gruffudd ap Nicholas a oedd yn rhedeg y castell yn 1460. Mae'n eitha' tebygol ei fod wedi adeiladu'r Tŷ Newton cyntaf fel cartref cysurus yn lle caled-wch di-gysur y castell canol-oesol.



Yn wreiddiol, cafodd arbeisiau eu creu er mwyn gallu adnabod marchogion ar faes y frwydr, ond yn ddiweddarach roedden nhw'n cael eu defnyddio gan deuluoedd o dras uchel fel arwydd o'u pŵer, eu hunaniaeth a'u tiroedd.

Yn ystod yr Oesoedd Canol, roedd llawer iawn o bobl yn methu darllen, felly roedd y defnydd hwn o liw, symbolau ac anifeiliaid yn gwneud pethau yn haws i'w deall.

Nesa, fe welwch chi amrywiaeth o symbolau, anifeiliaid a lliwiau gyda'u hystyron fel y gallwch chi greu eich arfbais eich hunan.



Yr enw am
astudio arbeisiau yw
'herodraeth'.

Symbolau:

Anifeiliaid:



Ffydd Gristnogol



Dewrder



Brwdfrydedd



Dewrder



Doethineb, Cytgord



Gweithio'n galed



Pŵer, Awdurdod



Heddwch, Cytgord



Cywir, Gon-



Caredigrwydd



Angerdd



Brwdfrydedd



Gwarchodol



Cain, Hardd



Dewrder



Ffyddlon



Tras Uchel

Lliwiau:

Melyn neu Aur = Haelioni

Gwyn neu Arian = Heddwch, Cytgord.

Gwyrdd = Hapusrwydd, Gobaith,
Ffyddlondeb

Coch = Dewrder

Glas = Gonestrwydd, Ffyddlondeb


Porffor = Gras, Cyfiawnder, Arweinydd,
Pŵer

Du = Doethineb, Gofal, Galar



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Fy Arfbais i





Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust

Gweithgareddau cyn ac wedi'ch ymweliad

Cyn dod i weld Castell Dinefwr.

- Dysgwch am amrywiaeth o gestyll trwy gyfryngau gwahanol.
- Mae nifer o ffilmiau ar gael i chi ddefnyddio clipiau byr yn dangos amrywiaeth o gestyll, er enghraifft; Harry Potter, Brave, Merlin a mwy. Bydd hyn yn galluogi'r dosbarth i sylwi ar wahanol arddulliau ac adeiladwaith.
- Gan ddefnyddio Google Earth gall y dosbarth ymchwilio i wahanol gestyll o gwmpas y byd a chymharu'r gwahaniaethau.
- Ymchwiliwch yn fanwl i'ch dewis o gastell, rhowch adnoddau addas i'r dosbarth er mwyn iddyn nhw greu taflen, llyfryn neu boster i annog pobl o'r gymuned leol i ymweld â'r lle. Gofynnwch i'r plant gynnwys hanes y castell, a'i luniadu, ynghyd â chreu llinell amser efallai i ddangos digwyddiadau pwysig yno. Dechreuwch eich ymchwil yn <http://cadw.gov.wales/daysout/dinefwrcastle/?skip=1&lang=cy>

Yn dilyn eich ymweliad â Chastell Dinefwr

Defnyddiwch yr ymweliad â Chastell Dinefwr i ysbrydoli ysgrifennu straeon creadigol:

Rhowch y castell yng nghalon y stori, a datblygwch gynllun a chymeriadau i wneud y stori mor ddychmygus â phosib. Ymhle yn y castell mae'r stori'n digwydd? Ym mha gyfnod mewn hanes mae'r stori'n digwydd? Pwy yw'r cymeriadau? Ydyn nhw'n hudol neu'n ddewr, milwyr, brenhinoedd neu freninesau? Esboniwch eu rôl yn y castell. Beth sy'n digwydd yn y stori? Ydy hi'n mynd i fod yn stori ddramatig, un sydd â diwedd hapus, neu un sy'n gorffen ar nodyn o gyffro? Defnyddiwch eich holl synhwyrâu wrth greu y stori.

Defnyddiwch luniau a gymerwyd neu a luniwyd ar yr ymweliad i atgoffa'r plant am eu teimladau ar y pryd, neu am beth welon nhw yn ystod eu hamser yng Nghastell Dinefwr, er mwyn annog trafodaeth ddosbarth neu grŵp i feddwl nôl dros yr ymweliad.

Creu Cymeriad—gweler tudalen 9.

